

# Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 13<sup>eg</sup> o Chwefror 2020  
yn Nghanolfan Glasinfryn am 7.00pm

## Agenda

Presennol:

Ymddiheuriadau:

Ethol Cadeirydd

Derbyn cofnodion 9fed o Ionawr 2020

Materion yn codi o'r cofnodion

Is-bwyllgor Cyllid - Cofnodion 29ain o Ionawr

Ceisiadau Cynllunio

Canolfan Penrhosgarnedd

Ysgol y Faenol

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
  - Sedd wag
  - Gamlins
  - Diffibs
  - Cysylltu a lampau Stryd / Cyngor Gwynedd
  - Ad-dalu TAW yn ol i HMRC
  - Trydan y Capel
  - Traelia Cyngorwyr
  - Unllais Cymru (aelodaeth)

Adroddiad

- Hysbysfwrdd Ysb Gwynedd
- Cysgodfan Bws

Materion y Cyngorwyr

# Cyngor Cymuned Pentir

## Cofnodion Cyngor Llawn gynhaliwyd Nos Iau 9<sup>fed</sup> o Ionawr 2020

### Yng Nganolfan Gymunedol Glasinfryn am 7.00pm

#### Presennol:

Y Cyng. D Jones-Morris, Eleri Jones, H Griffiths, D W Jones, B Jones, M Baines, T Anwyl-Williams a L. A . James Elwyn Jones (Clerc )

#### Ymddiheuriadau:

Y Cyng, J. Griffiths, M Lynch, a J Pierce

Yn dilyn ymddiswyddiad Cyng Cynrig E Hughes o'r Cyngor a dewis yr Is-Gadeirydd i beidio symud i'r gadair etholwyd Cyng D W Jones i gadeirio

Yn ei sylwadau agoriadol dywedodd y Cadeirydd tra'i fod yn hapus camu i'r bwlch heno nid oedd yn rhoi ei enw ymlaen i gadeirio ar hyn o bryd.

Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn ethol Cadeirydd yn fisol i'r Cyngor Llawn

Ychwanegodd y Cadeirydd ei fod yn siomedig fod y Cyngor wedi colli Cadeirydd mor ddawnus a'r cyn

Gynghorydd C. E. Hughes gan iddo fod wedi cyflawni cymaint ers iddo gael ei ethol yn Gadeirydd yn 2017.

Bu yn Arweinydd cydwybodol a democrataidd o'r Cyngor ag yn wastad wedi rhoi penderfyniadau y Cyngor a'r etholwyr flaenaf.

Bydd bwlch ar ei ol

#### Côd Ymddygiad

Atgoffwyd pawb o'n côd ymddygiad a'r angen i ddatgan buddiant ar y ffurflen briodol os oedd angen.

#### Derbyn cofnodion 14eg o Dachwedd 2019

Derbynwyd cofnodion fel rhai cywir ar gynnig Cyng B Jones ag eilwyd gan y Cyng D Jones-Morris  
Materion yn codi o'r cofnodion

Wal Coed y Maes Cyngor Gwynedd wedi llythyru y sawl oedda nhw'n honi oedd y perchenog ond hwnnw wedi anfon yn ol atynt i ddweud iddo fod wedi trosglwyddo y tir/wal i Cyngor Gwynedd. Yr adran Tramwy wedi cydnabod hynny ag mae'r Adran Priffyrdd sydd a chyfrifoldeb.

Y Clerc wedi anfon yn ol at y Swyddog Tramwy yn holi be yn union fyddai'n digwydd rwan

Dim ynateb wedi dod

Llinellau Melyn Cyng M Baines mewn trafodaethau gyda'r Adran Trafnidiaeth Cyng D Jones-Morris yn fwy na parod i gynnig cymorth mewn unrhyw ffordd.

#### Adroddiad Ariannol 27ain o Dachwedd

- Taliad TAW oedd ddim yn ddyledus i ni

Yn dilyn argymhelliad y Cyngor Llawn 14eg o Dachwedd trosglwyddwyd yr arian i'r Cyfrif Cadw fel fod ein cyfrif cyfredol yn dangos yn union faint ein cyllid.

Yn anffodus bore heddiw 27-11-19 darganfyddwyd fod £6,734.82c arall wedi ei dalu i mewn gan HMRC Mae'r Clerc mewn cyswllt rheolaidd gyda HMRC i geisio datrys eu problem.

Nid ydynt yn gwybod yn union o ble mae'r arian yn cael ei drosglwyddo i ni

- Ceisiadau Nawdd /Taliadau

Gan nad oedd Cyngor Llawn yn ystod Rhagfyr cytunwyd i'r Clerc gysylltu ar e-bost i holi sylwadau y Cynghorwyr a chadarnhau talu argymhellion IBC Tachwedd

Fel arall byddai 'n Ionawr ar y taliadau yn cael eu anfon.

Nid oedd gwrthwynebiadau a'r taliadau wedi eu anfon

- Rhanwyd y fantolen ariannol yn dangos £43,826.25 yn y cyfrif gan fod mwy o ad-daliadau TAW wedi eu dalu i mewn. Adroddiad 'Dros Dro' y banc yn datgan £44,877.05 gan fod 3 siec heb eu cyflwyno. **1 i HMRC (101346) ers mis Mehefin**

## Ceisiadau Cynllunio

C19/1078/25/DT Codi estyniad unllawr i Collwyn 1, Ffordd Cynan Penrhosgarnedd **Dim gwrthwynebiad**

C19/1165/25/RA Diwygio amod 2 o Cais Gwreiddiol Ysgol y Faenol C19/0087/25/R3 **Dim gwrthwynebiad**

C19/1095/25/DT Gweithdy a modurdy newydd Fferm Ty'n Ffridd LL57 4UF **Dim gwrthwynebiad ond rhoddwyd sylw**

C19/1114/25/LL Codi Sied Amaethyddol Fferm Ty'n Ffridd LL57 4UF **Gwrthwynebu gan nad yw bellach yn Uned Amaethyddol**

C19/1110/25/LL Estyniad Deulawr yn Ysbyty Gwynedd LL57 2PW **Dim gwrthwynebiad**

C19/1189/25/DA Diwygiad ansylweddol ar gyfer ail-leoli llwybr beicio a thirlunio **Dim gwrthwynebiad**  
ychwanegol Goetre Uchaf bangor LL57 2NT

## Canolfan Penrhosgarnedd

- Gofalwr newydd wedi dechra
- Llogi yn nwylo'r trysorydd
- Swyddog Adeiladau Cyngor Gwynedd wedi cytuno i archwilio'r adeilad i sicrhau diogelwch

## Ysgol y Faenol

Cafwyd cyflwyniad gan y Cyng L A James, sy'n cynrychioli'r Cyngor ar gorff Llywodraethwyr yr Ysgol, beth yn union oedd tu ol i'r e-bost oedd wedi ei anfon allan at bawb yn dilyn cyfarfod o'r corff yn gofyn i'r Cyngor ystyried cyfrannu mwy na'r £10K oedd y Cyngor wedi ei gytuno i'w gyfrannu tuag at y wal symudol yn yr adeilad cymunedol.

Byddai hynny – o bosib – yn rhyddhau arian tuag at ochr yr Ysgol o'r prosiect.

**Cytunwyd i'r Clerc ysgrifennu at Cyngor Gwynedd** i ddatgan y byddai Cyngor Pentir yn **fodlon ystyried**

cyfrannu swm ychwanegol i'r £10K tuag at y prosiect ag i gylch-lythyru aelodau'r Cyngor cyn ei anfon

**Gofynwyd i'r Clerc hefyd gysylltu a Cwmni Gamlins** i holi ynglyn a'r prydles gan fod pryder wedi ei ddatgan ynglyn a pherchnogaeth y tir fyddai'r ganolfan newydd yn sefyll arno

## Materion y Clerc

### Gohebiaethau

- Ad-dalu TAW yn ol i HMRC Trafodaethau'n parhau i geisio datrys pam fod HMRC yn dal i anfon arian
- Maesydd Chwarae Cyngor Gwynedd Llythyr wedi ei dderbyn heddiw yn amlinnellu costau ond na fyddai unrhyw gyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo tan Ebrill 2021
- Deddf Amgylched Cymru – Environment Wales Act  
Cwblhau adroddiad erbyn diwedd y flwyddyn ond heb ei gyflawni hyd yma
- Cae Redrow Clerc wedi derbyn ymateb o Cyngor Gwynedd yn adrodd mae Redrow fyddai yn dal y perchennog ag argymhelliad na ddylai Cyngor Gwynedd na Pentir ymgymeryd a'r cyfrofoldeb o'i dorri
- Prisiau 2020-21 Trafodwyd yr amcanbrisiau oedd wedi dod i law am dorri gwair ychwanegol – torri gwair y llwybrau a'r fynwent – plannu hadau blodau gwylltion – llunau llwybr ar yr hen ffordd yn Pentir.  
Nid oedd prisiau Cysgodfan Nant y Mount na thrwsio cysgodfan Pentir a Ysgol y Faenol wedi cyrraedd na pris y biniau halen ychwanegol (5)  
Dosbarthwyd cyllideb ddrafft am y flwyddyn sydd i ddod o £49,422.00 Atodiad C Gosod Cyllideb 2020-21

## **Cytunwyd hawlio yr un Praesept ag eleni o £50K a'i hawlio erbyn Ionawr 24ain 2020**

### Adroddiad

- Hysbysfwrdd Ysb Gwynedd Y saga yn parhau oherwydd fod Ysb Gwynedd bellach yn rhoi amodau eitha caeth ar y Contractwr cyn ei osod Cyng LAJ a D MJ yn ceisio darbwyllo
- Biniau Halen 5 wedi eu gosod a'u llenwi 3 ar Ion Fodolydd 1 ar Stad Rhosfryn a un ar ffordd Coed y Maes

## **Materion y Cynghorwyr**

Yn gyffredinnol prif faterion oedd y problemau ynglyn a casgliadau ail-gylchu oedd wedi achosi llawer iawn iawn o broblemau dros gyfnod y gwyliau Nadolig a'r wythnosau ar ol hynny oherwydd y gwyntoedd. Amlygwyd un lleoliad yn fwy na'r gweddill sef Lon Bryn Gwredog yn Waen Wen lle mae oddeutu 12 i 15 cart-gylchu a biniau Gwyrdd yn cael eu gadael yn yr un lleoliad wrth giat Ty'n Ffridd.

**Gofynwyd i'r Clerc gysylltu a Gwynedd** i holi os mae 12 i 15 tai domestig sydd yno yntau busnes gwyliau/tai gwyliau sydd yna fyddai yn gallu derbyn un bin mawr busnes

**Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr cyffredinnol yn datgan pryder ynglyn a'r gwasanaeth yma**

Cyng J Griffiths                      Adroddwyd fod cwn mawr ar Lon Las Ogwen heb fath o dennyn na rheolaeth arnynt  
**Clerc i gysylltu a Gwynedd**

Cyng L A James                      Rheoliadau Cynllunio – Adroddwyd fod trigolion yn holi am ddau neu dri lleoliad o fewn yr ardal ble mae datblygiadau yn digwydd a dim ceisiadau cynllunio o unrhyw fath yn cael ei anfon.  
**Clerc i gysylltu ag Adran Cynllunio Gwynedd i'w gwahodd atom i esbonio beth sydd angen a beth sydd ddim angen caniatad cynllunio**

Cyng T A Williams                      Llinellau Gwyn cyffordd Treborth Stad Glan Menai ag at y gefnffordd  
**Clerc i gysylltu a Gwynedd**

Cyng H Griffiths                      Problemau ail-gylchu Lon Ty'n Ffridd                      **Nodwyd uchod**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40